Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Deintyddfa'r Capel

28 Gorffennaf 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.hiw.org.uk



Digidol ISBN 978-1-4734-4977-0


© Hawlfraint y Goron 2015

# Cynnwys


1. Cyflwyniad .......... 2

2. Methodoleg .......... 2

3. Cyd-destun .......... 4

4. Crynodeb .......... 5

5. Canfyddiadau .......... 6

   Profiad y Claf .......... 6

   Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal .......... 9

   Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .......... 12

   Ansawdd yr Amgylchedd .......... 16

6. Y Camau Nesaf .......... 18

   Atodiad A .......... 19

## 1. Cyflwyniad

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gwblhau arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ddeintyddfa'r Capel, Stryd Mansel, Caerfyrddin, SA31 1QX, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, ar 28 Gorffennaf 2015.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ystyried ac adolygu'r meysydd canlynol:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o bractisau deintyddol cyffredinol yn ceisio sefydlu pa mor dda mae practisau yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal.[1] Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[2] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[3] Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal ag unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio

---

[1] http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/how-the-health-and-care-standards-are-st

[2] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh

[3] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh

- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r safonau a arferir yn y sefydliad yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

## 3. Cyd-destun

Mae Deintyddfa'r Capel yn darparu gwasanaethau preifat yn bennaf, gyda rhywfaint bach o wasanaethau'r GIG, i gleifion yn ardal Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir o fewn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys dau ddeintydd (perchnogion y practis), un hylenydd, un therapydd, pum nyrs, un rheolwr practis, a dau dderbynnydd.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Diagnosis ac atal
- Triniaethau adferol
- Argaenau
- Coronau a phontydd
- Dannedd gosod
- Rhagnodi a chyflenwi meddyginiaethau deintyddol
- Triniaethau cosmetig

## 4. Crynodeb

Edrychodd AGIC ar y modd roedd Deintyddfa'r Capel yn bodloni’r safonau gofal a nodir yn Safonau Iechyd a Gofal Ebrill 2015.

Ar y cyfan, dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth roeddent yn ei dderbyn yn y practis deintyddol, a'u bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Roedd yr adborth o holiaduron cleifion AGIC yn gadarnhaol. Gall cleifion dderbyn gwasanaeth cwbl ddwyieithog (Cymraeg/ Saesneg).

Gwelsom fod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u darparu mewn ffordd ddiogel i gleifion. Gwelsom fod pob ystafell driniaeth yn lân, yn daclus, ac yn drefnus. Gwelsom wybodaeth ysgrifenedig a oedd yn dangos bod y gofal a ddarparwyd o safon foddhaol.

Roedd y practis wedi sefydlu polisïau a gweithdrefnau perthnasol a oedd â'r nod o sicrhau bod canllawiau ar ddarparu gofal diogel i gleifion ar gael i'r staff. Fodd bynnag, roedd angen adolygu a diweddaru'r rhain. Nid oedd y practis yn cael ei reoli mor effeithlon â phosibl, a gwelwyd bod angen gwneud gwelliannau sylweddol o ran rheolaeth ac arweinyddiaeth. Fodd bynnag, roedd y staff yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd fel tîm cydlynol.

Gwelsom fod y practis yn y rhan fwyaf o leoedd yn lân, yn fodern, ac wedi'i gynnal a'i gadw'n briodol er mwyn darparu amgylchedd diogel i gleifion dderbyn triniaeth ynddo. Roedd mynediad da iawn yn yr adeilad drwyddo draw.

## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

**Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth roeddent yn ei dderbyn yn y practis deintyddol, a'u bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Roedd yr adborth o holiaduron cleifion AGIC yn gadarnhaol iawn. Gall cleifion dderbyn gwasanaeth cwbl ddwyieithog (Cymraeg/Saesneg).**

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r practis ddosbarthu holiaduron AGIC er mwyn cael barn cleifion ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd 25 o holiaduron cleifion (Cymraeg a Saesneg) cyn dyddiad yr arolygiad. Ni roddodd un claf ganiatâd i ni ddefnyddio ei sylwadau yn yr adroddiad hwn. Gwnaethom siarad â dau glaf hefyd ar ddiwrnod yr arolygiad. Roedd adborth cleifion yn gyson gadarnhaol. Dywedodd yr holl gleifion eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth roeddent yn eu derbyn yn y practis a'u bod yn teimlo eu bod yn cael croeso gan y staff. Dywedodd mwyafrif y cleifion wrthym nad oeddent wedi profi unrhyw oedi wrth aros i weld deintydd. Fodd bynnag, dywedodd un claf wrthym ei fod wedi profi oedi "weithiau".

Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *"Gwasanaeth ardderchog!"*
>
> *"Mae'r staff bob amser yn broffesiynol a chymwynasgar o ran apwyntiadau."*
>
> *"Practis croesawgar sy'n rhoi gofal manwl i'r teulu cyfan."*
>
> *"Tîm croesawgar sy'n gwneud yr ymweliad â'r deintydd dipyn gwell!"*
>
> "Rwyf wedi bod gyda'r practis am flynyddoedd lawer ac wedi cael gwasanaeth prydlon a da iawn bob amser. Dim cwyn."
>
> *"Rydw i'n fodlon iawn ar y gwasanaeth; mae'r holl staff yn gwrtais a chyfeillgar. Tîm effeithlon iawn."*

Nododd dros ddwy ran o dair o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod yn gwybod sut i gael gwasanaethau deintyddol y tu allan i oriau. Nid oedd arwydd y tu allan i'r practis yn dangos y rhif cyswllt mewn argyfwng, a gwnaethom drafod hyn gyda'r prif ddeintydd, a ddywedodd fod cyfyngiadau ar y defnydd o arwyddion gan y cynhelir y practis mewn adeilad rhestredig Gradd II.

Gwnaethom hefyd ddarllen y wybodaeth ynglŷn â'r gwasanaethau y tu allan i oriau yn y daflen wybodaeth i gleifion, a chanfod nad oedd yn cynnwys y rhif cyswllt mewn argyfwng/y tu allan i oriau. Fodd bynnag, roedd taflenni ar gael wrth ddesg y dderbynfa a oedd yn nodi oriau agor a rhifau ffôn, gan gynnwys manylion cyswllt mewn argyfwng. Gwnaethom gadarnhau bod rhif cyswllt ar neges peiriant ateb y practis. Felly, roeddem yn fodlon bod gan y cleifion sawl ffordd o gael gwybodaeth mewn argyfwng.

Dywedodd yr holl gleifion eu bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Dywedodd y staff wrthym fod dewisiadau o ran triniaeth yn cael eu trafod gyda'r cleifion, a gwelsom dystiolaeth o hyn wedi ei chofnodi yn nodiadau'r cleifion.

Roedd system apwyntiad hyblyg ar waith, a gallai cleifion drefnu apwyntiadau ymlaen llaw yn ogystal ag ar sail argyfwng, gan alluogi cleifion i gael eu gweld yn gyflym pe bai angen.

Roedd taflenni gwybodaeth y practis ar gael yn y dderbynfa. Fodd bynnag, roedd angen iddynt gynnwys y broses gwyno a manylion cyswllt ar gyfer y cyngor iechyd cymuned lleol ac AGIC.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylid cynnwys y manylion cyswllt ar gyfer gwneud cwynion yn nhaflen y practis yn unol â threfniadau 'Gweithio i Wella' y GIG a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru).***

Roedd gan y practis amrywiaeth o daflenni gwybodaeth hyrwyddo iechyd yn y mannau aros, gan gynnwys rhoi'r gorau i ysmygu a chodi ymwybyddiaeth o ganser y geg.

Nid oedd gan y practis system ar waith ar gyfer casglu barn cleifion yn rheolaidd. Fodd bynnag, yn ystod trafodaeth gyda'r uwch-nyrs, dywedwyd eu bod yn bwriadu adolygu'r canfyddiadau a nodwyd yn holiadur AGIC mewn tri mis.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis sefydlu proses ar gyfer cael barn cleifion a gweithredu ar y wybodaeth a gesglir.***

Pan wnaethom ofyn ynglŷn â gwneud cwyn, nododd hanner y cleifion a gwblhaodd holiadur nad oeddent yn gwybod sut i wneud hynny. Gwelsom fod polisi cwyno wedi'i arddangos yn y practis, ond nid oedd yn bodloni proses pryderon y GIG na'r broses ar gyfer deintyddiaeth breifat. Mae angen cael dwy broses unigol sy'n bodloni'r amserlenni perthnasol ac sy'n cynnwys manylion cyswllt y cyngor iechyd cymuned (GIG) a manylion cyswllt AGIC (preifat).

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae angen datblygu'r polisïau cwyno er mwyn adlewyrchu proses y GIG a phroses deintyddiaeth breifat.***

## *Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal*

**<u>Ar y cyfan, roeddem o'r farn bod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u darparu mewn ffordd ddiogel i gleifion. Gwelsom fod pob ystafell driniaeth yn lân, yn daclus, ac yn drefnus. Gwelsom wybodaeth ysgrifenedig a oedd yn dangos bod y gofal a ddarparwyd o safon foddhaol.</u>**

### <u>Cyfleusterau clinigol</u>

Gwnaethom edrych ar gyfleusterau clinigol pob un o’r pedair ystafell driniaeth yn y practis (dwy ystafell driniaeth ddeintyddol, un hylenydd, ac un ystafell driniaeth therapydd), a chanfuom eu bod yn cynnwys offer addas er mwyn sicrhau diogelwch cleifion a staff. Roedd yr ystafelloedd triniaeth i gyd yn ymddangos yn lân, yn daclus, ac yn drefnus. Roedd yr holl arwynebau'n daclus er mwyn caniatáu glanhau effeithiol.

Gwelsom dystiolaeth bod profion dyfeisiau cludadwy wedi cael eu cynnal i wirio bod y dyfeisiadau trydanol bach a ddefnyddir yn y practis yn addas i'r diben ac yn ddiogel i'w defnyddio.

Dywedwyd wrthym fod y ddau gywasgydd (dyfais sy'n rhoi cyflenwad o aer glân i bweru offer llaw deintyddol ac amryw offer deintyddol eraill) wedi'u cynnal a'u cadw, a'u harchwilio yn unol â'r gofynion.

Roedd y practis yn cynnig y cyfleuster rhoi cyffuriau ar bresgripsiwn. Roedd cyffuriau'n cael eu cadw'n briodol ac o fewn eu dyddiad dod i ben, ond roedd angen cadw llyfrau presgripsiwn dan glo pan nad oeddent yn cael eu defnyddio.

### <u>Dadheintio offer</u>

Gwelsom fod prosesau addas ar waith i atal cleifion rhag croes-heintio. Roedd dwy ardal benodol yn y practis ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol: un i fyny'r grisiau a'r llall ar y llawr daear. Roedd cyfleusterau rhagorol yn yr ardal ddadheintio ar y llawr cyntaf ar gyfer trosglwyddo offer wedi'u defnyddio o'r ystafelloedd triniaeth, a phan eu bod yn lân ar gyfer eu dychwelyd i'r ystafelloedd triniaeth. Gwnaethom drafod yr arfer gorau o ran stampio'r dyddiad prosesu a'r dyddiad dod i ben ar becynnau a ddefnyddir ar gyfer cyfarpar sydd wedi'i sterileiddio, a dywedodd yr uwch-nyrs y byddai'r arfer hwn yn cael ei fabwysiadu yn syth ar ôl yr arolygiad hwn. Roedd yr ardaloedd wedi'u trefnu mewn ffordd addas er mwyn glanhau offer yn effeithiol.

Roedd polisi rheoli heintiau wedi'i sefydlu. Gwelsom fod y gwaith dyddiol o brofi a chynnal a chadw cyfarpar glanhau yn cael ei wneud yn briodol, ond nad oedd cofnodion clir ar gyfer hynny. Gwnaethom awgrymu defnyddio llyfrau cofnodion

cydnabyddedig ar gyfer archwilio offer a lefel dŵr, ac roedd y practis wedi'u harchebu erbyn diwedd yr arolygiad.

Gwelsom dystiolaeth bod staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddadheintio a rheoli heintiau. Fodd bynnag, gwnaethom drafod yr hyfforddiant a gynigir gan Adran Ddeintyddol Deoniaeth Cymru, a dywedodd yr uwch-nyrs y byddent yn gofyn a oes lle ar gael i ddilyn yr hyfforddiant, fel yr argymhellwyd. Roedd y practis wedi cynnal archwiliad rheoli heintiau, ac wedi defnyddio'r dull o archwilio a ddatblygwyd gan Brifysgol Caerdydd, fel yr argymhellir gan ganllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

**Gwaredu gwastraff**

Roedd gwastraff yn cael ei drin, ei storio a'i waredu yn briodol yn y practis, ac roedd contract gwaredu gwastraff cyfredol ar waith.

**Offer radiograffeg (pelydr-X)**

Gwelsom fod trefniadau digonol ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffeg (pelydr-X) yn ddiogel. Roedd dogfennau perthnasol ar gael, gan gynnwys dogfennau ynglŷn ag archwiliadau diogelwch, cynnal a chadw, a phrofi. Gwelsom dystiolaeth bod yr holl staff clinigol cymwys wedi dilyn hyfforddiant priodol yn ymwneud â defnyddio ymbelydredd ïoneiddio. Gwnaethom edrych ar y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd, sy'n cynnwys manylion ynglŷn â'r offer a'r gweithdrefnau pelydr-X at ddefnydd staff, ac roedd yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol.

**Meddyginiaeth ac offer meddygol mewn argyfwng**

Roedd gan staff fynediad at gyfarpar dadebru a meddyginiaeth pe bai argyfwng gyda chlaf (llewygu) yn y practis. Roedd gan y practis system addas ar gyfer sicrhau bod yr offer dadebru a'r feddyginiaeth a ddefnyddir mewn achosion brys yn cael eu gwirio'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Gwelsom dystiolaeth ardystiedig bod staff y practis wedi derbyn hyfforddiant cyfredol ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol. Pe byddai problem feddygol, golygai hyn y byddai gan staff y sgiliau angenrheidiol a mynediad at gyfarpar a chyffuriau achub bywyd i'w galluogi i weithredu ar unwaith. Fodd bynnag, gwnaethom awgrymu cadw'r algorithmau a bennwyd gyda'r meddyginiaethau perthnasol, a chadw cyfarpar a chyffuriau a ddefnyddir mewn achosion o argyfwng yn ganolog er mwyn sicrhau eu bod ar gael yn ddiogel ac mewn ffordd ymatebol mewn argyfwng. Roedd y ddau ddeintydd wedi'u henwi'n swyddogion cymorth cyntaf penodedig. Fodd bynnag, nid oedd yr un ohonynt wedi dilyn yr hyfforddiant dau ddiwrnod cychwynnol sy'n ofynnol. Gwnaethom

nodi hefyd nad oedd rhai mathau o offer (llwybrau anadlu) ar gael ond mewn meintiau cyfyngedig.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i swyddogion cymorth cyntaf penodedig dderbyn yr hyfforddiant gofynnol.***

***Mae'n rhaid cael offer a ddefnyddir mewn achosion brys yn y practis fel y nodir yn y canllawiau a osodwyd gan Gyngor Dadebru'r DU.***

## Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych yn fanwl ar sampl o ddeg o gofnodion cleifion, a gwelsom fod safon cadw cofnodion yn dda ar y cyfan. Esboniwyd gweithdrefnau a dewisiadau o ran triniaethau ar lafar i'r cleifion a'u cofnodi yn nodiadau'r cleifion. Nid oedd y practis yn defnyddio cynlluniau triniaeth y GIG, a thrafodwyd hyn gyda'r prif ddeintydd. Roedd pob claf preifat yn derbyn cynllun triniaeth. Roedd angen rhoi sylw i'r meysydd canlynol yn ymwneud â chofnodi ymgynghoriadau cleifion:

- Mae angen i'r practis gynnal archwiliadau periodontol sylfaenol[4] a chofnodi unrhyw ymchwiliadau ychwanegol yn unol â'r chanllawiau cymeradwy.
- Nid oedd unrhyw ddeintydd wedi cydlofnodi'r cofnodion meddygol. Anfonodd AGIC lythyr sicrwydd ar unwaith ynghylch hyn ar 31 Gorffennaf 2015, a derbyniodd ateb boddhaol ar 3 Awst 2015 (gweler Atodiad A).

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid i'r practis weithredu canfyddiadau'r archwiliad periodontol sylfaenol a nodi unrhyw driniaeth ychwanegol yng nghofnodion y cleifion.***

---

[4] Dull sgrinio deintyddol syml a chyflym yw'r **archwiliad periodontol sylfaenol** a ddefnyddir i ddynodi faint o archwiliad sydd ei angen ac i roi canllawiau sylfaenol ar y driniaeth sydd ei hangen.

## *Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Roedd y practis wedi sefydlu polisïau a gweithdrefnau perthnasol a oedd â'r nod o sicrhau bod canllawiau ar ddarparu gofal diogel i gleifion ar gael i'r staff. Fodd bynnag, roedd angen adolygu a diweddaru'r rhain. Nid oedd y practis yn cael ei reoli mor effeithlon â phosibl, a gwelwyd bod angen gwneud gwelliannau sylweddol o ran rheolaeth ac arweinyddiaeth. Fodd bynnag, roedd y staff yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd fel tîm cydlynol.**

Y ddau ddeintydd sy'n gweithio yn y practis ar hyn o bryd yw perchnogion Deintyddfa'r Capel. Rheolwr rhan amser y practis oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd, gyda chymorth uwch-nyrs a oedd yn gwneud swydd reoli yn rhan amser. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw ar ddiwrnod yr arolygiad eu bod yn hapus yn eu swyddi, eu bod yn deall eu cyfrifoldebau, a'u bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth gan reolwr y practis a'r uwch-nyrs yn enwedig.

**<u>Polisïau a gweithdrefnau</u>**

Gwelsom fod amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol wedi'u sefydlu yn y practis. Fodd bynnag, roedd angen datblygu rhai ohonynt. Yn ogystal, roedd angen adolygu a diweddaru'r holl bolisïau. Roedd tystysgrifau cynnal a chadw ar gael ar gyfer yr offer a ddefnyddir yn y practis, ac roedd system addas ar waith i sicrhau bod y tystysgrifau hyn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Gwnaethom nodi nad oedd dogfennau'n ymwneud â'r staff a'r practis wedi'u cadw a'u ffeilio'n drefnus, ac roedd hyn yn achosi dryswch.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae angen adolygu a diweddaru'r polisïau a'r gweithdrefnau er mwyn sicrhau bod y staff yn gweithio gyda'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau cyfredol.***

Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod cyfarfodydd staff yn cael eu trefnu ddwywaith y flwyddyn, a gwelsom enghreifftiau o nodiadau diweddar a oedd yn nodi'r trafodaethau a gafwyd yn ystod y cyfarfodydd a'r camau gweithredu a bennwyd. Ni welsom unrhyw gofnod o'r hyn a ddysgwyd o'r cyfarfodydd, ond cafodd materion ymarfer eu trafod. Dywedodd staff wrthym eu bod yn cael eu hannog i leisio unrhyw bryderon yn ystod y cyfarfodydd hyn, ond y byddent hefyd yn teimlo'n gyfforddus i leisio pryderon gyda rheolwr y practis neu'r uwch-nyrs ar unrhyw adeg.

**Ffeiliau staff**

Nid oedd unrhyw ffeiliau staff unigol ar gael. Roedd hyn yn achosi cryn drafferthion wrth archwilio dogfennau staff. Gwnaethom awgrymu datblygu system ffeilio well ar gyfer ffeiliau staff unigol er mwyn cynorthwyo'r practis i fonitro hyfforddiant a datblygiad staff.

Ni welsom gontractau staff unigol, er bod rheolwr y practis wedi cadarnhau eu bod ar gael. Cadarnhaodd y staff eu bod wedi llofnodi contractau.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai pob aelod o staff gael contract cyflogaeth.***

Nid oeddem yn gallu cadarnhau p'un ag oedd y staff wedi cael archwiliadau cyn-cyflogi priodol gan nad oedd y dogfennau ar gael yn rhwydd. Dywedodd rheolwr y practis eu bod wedi cynnal yr archwiliadau ond nad oeddent wedi eu cadw ar ôl i'r staff ddechrau yn y swydd.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid i staff gael archwiliadau cyn-cyflogi perthnasol cyn dechrau gweithio.***

Nid oedd unrhyw arfarniadau wedi'u cynnal ar gyfer y staff. Cadarnhaodd y staff nad oedd arfarniadau wedi'u cynnal am flynyddoedd lawer.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid cynnal arfarniadau ar gyfer y staff er mwyn sicrhau eu bod yn gymwys, ac i ganfod anghenion hyfforddiant neu anghenion datblygu.***

Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a bod ganddynt yswiriant indemniad priodol. Fodd bynnag, nid oedd rheolwr y practis yn gallu cadarnhau hyn gan nad oedd y practis yn cadw copïau o'r tystysgrifau yn y practis.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae angen i'r practis fod yn sicr bod y staff a gyflogir wedi'u cofrestru gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar hyn o bryd, a bod ganddynt yswiriant indemniad priodol.***

Nid oeddem yn gallu gweld enghreifftiau o ddatblygiad proffesiynol parhaus personol (hyfforddiant) a gwblhawyd gan staff yn y practis, gan nad oeddent yn

cael eu cadw yn y practis. Gwnaethom awgrymu y dylai'r practis gadw copïau o dystysgrifau er mwyn sicrhau bod staff yn cael yr hyfforddiant gofynnol sy'n berthnasol i'w swyddi.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae angen i'r practis fod yn sicr bod gan yr holl staff perthnasol ffeiliau datblygiad proffesiynol parhaus cyfredol.***

Ar adeg ein harolygiad, nid oeddem yn gallu bod yn sicr bod gan bob deintydd dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a oedd wedi'i dyddio o fewn y tair blynedd diwethaf, yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat, oherwydd nad yw'r practis yn cadw copïau o'r tystysgrifau.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae angen i'r practis sicrhau bod gan bob deintydd dystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (o fewn y tair blynedd diwethaf).***

Roedd gan y practis sampl o raglen sefydlu. Fodd bynnag, nid oeddem yn gallu bod yn sicr eu bod wedi cael eu cynnal oherwydd nad oedd unrhyw ffeiliau staff unigol ar gael.

**<u>Amddiffyn plant ac oedolion</u>**

Gwelsom nad oedd pob aelod o staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn plant neu oedolion sy’n agored i niwed. Roedd polisi amddiffyn plant ar waith ond nid oedd yn cynnwys manylion cyswllt lleol pe bai angen i'r staff atgyfeirio. Nid oedd polisi diogelu oedolion ar waith. Bydd hyn yn gofyn am fanylion cyswllt er mwyn gallu atgyfeirio'n brydlon ac yn ddiogel, pe bai angen.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid i bob aelod o staff dderbyn hyfforddiant mewn amddiffyn plant ac oedolion sy’n agored i niwed.***

***Rhaid i'r practis sefydlu polisïau a gweithdrefnau er mwyn ymdrin â'r materion diogelu a nodwyd.***

Roedd gan y practis drefniadau addas ar waith ar gyfer cofnodi damweiniau a digwyddiadau.  Roedd y staff ar y pryd yn mynychu eu meddygfeydd unigol am gymorth iechyd galwedigaethol. Gwnaethom drafod â rheolwr y practis yr angen i gysylltu â'r bwrdd iechyd lleol er mwyn sicrhau bod gan y staff fynediad at eu gwasanaethau iechyd galwedigaethol.  Gwelsom gofnodion i ddangos bod yr holl staff clinigol wedi cael brechiadau priodol i'w gwarchod rhag firysau a gludir yn y gwaed.

Gwelsom fod system ar waith ar gyfer cofnodi ac ymateb i bryderon ffurfiol (cwynion). Fodd bynnag, nid oedd yn cynnwys dyddiadau ar gyfer ymateb fel y nodir yng nghanllawiau cwyno deintyddiaeth y GIG a deintyddiaeth breifat. Nid oedd pryderon ar lafar a phryderon anffurfiol yn cael eu cofnodi ar y pryd.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid i'r practis gofnodi pryderon ffurfiol, pryderon ar lafar, a phryderon anffurfiol yn unol â chanllawiau 'Gweithio i Wella' 2011[5] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.***

---

[5] Rheoliadau sydd â'r nod o symleiddio'r modd y caiff pryderon am y GIG eu trafod.

## *Ansawdd yr Amgylchedd*

**Gwelsom fod y practis yn y rhan fwyaf o leoedd yn lân, yn fodern, ac wedi'i gynnal a'i gadw'n briodol er mwyn darparu amgylchedd diogel i gleifion dderbyn triniaeth ynddo. Roedd mynediad da iawn yn yr adeilad drwyddo draw.**

Mae'r practis wedi'i leoli yng nghanol tref Caerfyrddin. Mae pedair ystafell driniaeth yn y practis, dwy ar y llawr daear a dwy ar y llawr cyntaf. Mae gan y practis faes parcio neilltuedig ar gyfer cleifion yng nghefn yr adeilad.

Roedd mynediad addas i'r practis, ac roedd fframiau'r drysau ar lawr daear y practis yn llydan drwyddo draw er mwyn galluogi cleifion ag anawsterau symudedd i fynd i'r safle'n ddiogel. Roedd lifft ar gyfer cludo pobl i'r llawr cyntaf ar gael er cyfleustra.

Roedd taith o amgylch yr adeilad yn cadarnhau bod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, yn fewnol ac yn allanol. Roedd y practis yn lân, yn daclus, ac wedi'i oleuo'n ddigonol drwyddo draw. Roedd yn darparu amgylchedd dymunol iawn i gleifion dderbyn triniaeth ynddo. Roedd y dderbynfa a'r mannau aros o faint addas ar gyfer nifer yr ystafelloedd triniaeth.

Fodd bynnag, gwelsom lwydni o amgylch y sinc yn ystafell driniaeth yr hylenydd, a siaradwyd â'r prif ddeintydd ynglŷn â hyn. Cytunwyd y byddai hyn yn derbyn sylw ar unwaith. Gwnaethom drafod hefyd gosod capiau neu orchuddion dros ddwy beipen agored a oedd yn rhedeg trwy'r wal o'r ystafelloedd triniaeth ar y llawr daear i du allan yr adeilad.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid i'r practis sicrhau bod cyflwr yr adeilad yn gyffredinol yn foddhaol.***

Roedd toiledau ar wahân ar gyfer cleifion gwrywaidd a benywaidd ar gael yn y practis, ac roedd y rhain o safon uchel iawn, yn gwbl hygyrch, yn lân, ac yn cynnwys cyfleusterau golchi dwylo addas i atal croes-heintio. Fodd bynnag, roedd angen darparu cyfleusterau gwaredu glanweithiol yn nhoiledau'r merched.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid darparu cyfleusterau gwaredu glanweithiol yn nhoiledau'r merched.***

Roedd enwau a chymwysterau pob deintydd wedi'u harddangos y tu allan, ynghyd â'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Nid oedd unrhyw

restr o'r holl staff, na’u swyddogaethau a'u cofrestriadau gyda’r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, yn weladwy y tu fewn i'r adeilad.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid i'r practis arddangos rhestr o'r holl staff clinigol/deintyddol, eu henwau, eu swyddogaethau, a'u rhifau Cyngor Deintyddol Cyffredinol.***

Roedd rhestrau prisiau deintyddiaeth y GIG a deintyddiaeth breifat wedi'u harddangos yn y dderbynfa.

Yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, roedd pob deintydd a oedd yn darparu triniaeth breifat wedi'i gofrestru gydag AGIC, ac roedd eu tystysgrifau cofrestru wedi'u harddangos yn y practis.

Gwelsom dystiolaeth bod mesurau a systemau ar waith i amddiffyn staff a chleifion pe byddai tân. Roedd arwyddion ar gyfer yr allanfeydd tân, ac roedd y diffoddwyr tân wedi'u harchwilio'n briodol. Gwelsom hefyd fod trefniadau addas ar waith i atal mynediad i’r adeilad heb ganiatâd.

Roedd cofnodion a gwybodaeth am gleifion yn cael eu storio’n ddiogel, ac roedd cofnodion electronig yn cael eu cadw ar weinydd allanol bob dydd. Roedd hyn yn golygu bod y practis wedi cymryd mesurau i sicrhau bod y cleifion a’u gwybodaeth yn ddiogel.

## 6. Y Camau Nesaf

Mae’r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i’r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella o ran Profiad Cleifion, Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru, Rheolaeth ac Arweinyddiaeth, ac Ansawdd yr Amgylchedd. Gellir gweld y manylion hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai’r cynllun gwella nodi’n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Neintyddfa'r Capel yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, a bydd yn cael ei werthuso fel rhan o’r broses arolygu deintyddol barhaus.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Deintyddfa’r Capel

## Dyddiad yr arolygiad: 28 Gorffennaf 2015

| Rhif y Dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Profiad y Claf** | | | |
| Tudalen 7 | Mae'n rhaid i'r practis sefydlu proses ar gyfer cael barn cleifion a gweithredu ar y wybodaeth a gesglir.<br><br>[Safonau Iechyd a Gofal 6.3; Cyngor Deintyddol Cyffredinol 2.1] | Adolygu holiadur AGIC mewn tri mis a gweithredu ar unrhyw wybodaeth berthnasol a dderbynnir. | Rheolwr y practis ac uwch-nyrs | Tri mis |
| Tudalen 7 | Dylid cynnwys y manylion cyswllt ar gyfer gwneud cwyn yn nhaflen y practis.<br><br>[Trefniadau 'Gweithio i Wella' y GIG a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008] | Eisoes wedi'i weithredu | Rheolwr y practis | Ar unwaith |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Tudalen 8 | Mae angen datblygu'r polisïau cwyno er mwyn adlewyrchu proses y GIG a phroses deintyddiaeth breifat.<br><br>[Canllawiau Gweithio i Wella y GIG 2011; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008] | Wedi'i weithredu a'r amserlenni wedi'u diwygio yn unol â hynny er mwyn adlewyrchu deintyddiaeth y GIG a deintyddiaeth breifat. | Rheolwr y practis | Rheolwr y practis |
| | **Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal** | | | |
| Tudalen 10 | Mae'n rhaid i swyddogion cymorth cyntaf penodedig dderbyn yr hyfforddiant gofynnol.<br><br>[Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch 2010] | Uwch-nyrs wedi'i henwebu i fynychu cwrs cymorth cyntaf. Bydd cyrsiau'n cael eu trefnu ar gyfer pob aelod o'r staff hefyd. | Rheolwr y practis ac uwch-nyrs | Ar unwaith |
| Tudalen 10 | Mae'n rhaid cael offer a ddefnyddir mewn achosion brys yn y practis fel y nodir yn y canllawiau a osodwyd gan Gyngor Dadebru'r DU.<br><br>[Canllawiau Cyngor Dadebru'r DU] | Archebwyd offer newydd a ddefnyddir mewn achosion brys (llwybrau anadlu) mewn meintiau 0–5. Mae'r offer cymorth cyntaf a'r offer a ddefnyddir mewn achosion brys wedi'u haildrefnu a'u labelu er mwyn eu hadnabod, a chael gafael arnynt, yn rhwyddach. | Uwch-nyrs | Ar unwaith |
| Tudalen | Rhaid i'r practis gofnodi a chadw | Eisoes yn cael ei weithredu. | Pob clinigydd ar | Ar unwaith |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| 11 | cofnodion/y wybodaeth ddiweddaraf, gan gynnwys hanes meddygol cyfredol, yn gywir a chyflawn. Rhaid i'r claf lofnodi'r rhain hefyd, a dylai'r deintydd eu cydlofnodi/llofnodi.<br><br>[Safonau Iechyd a Gofal 3.3, 3.5, 4.2; CDC 4.1.1, 4.1.2] | | unwaith. | |
| Tudalen 11 | Rhaid i'r practis weithredu canfyddiadau'r archwiliad periodontol sylfaenol a nodi unrhyw driniaeth ychwanegol yng nghofnodion y cleifion.<br><br>[Safonau Iechyd a Gofal 3.3, 3.5; Safon 4 y Cyngor Deintyddol Cyffredinol] | Archwiliad periodontol sylfaenol wedi'i gynnal ar gyfer pob arholiad ac wedi'i drafod â'r claf. Triniaeth briodol wedi'i thrafod â'r claf, a gofal a thriniaeth briodol wedi'u trefnu. | Clinigydd | Ar unwaith |
| | **Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | |
| Tudalen 12 | Mae angen adolygu a diweddaru'r polisïau a'r gweithdrefnau er mwyn sicrhau bod y staff yn gweithio gyda'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau cyfredol.<br><br>[CDC 1.9.1,6.6.7, 6.6.8, 6.6.9] | Cyfarfod â Rhian Parry o Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 26 Awst 2015 er mwyn sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau'n gyfredol. Wedi'i drafod â'r staff a'r newidiadau wedi'u gweithredu. | Uwch-nyrs | Ar unwaith |
| Tudalen | Dylai pob aelod o staff gael contract | Mae gan bob aelod o staff gontractau cyflogaeth, | Rheolwr y practis | Ar unwaith |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| 13 | cyflogaeth.<br><br>[Safonau Iechyd a Gofal 7.1] | ac mae ffeiliau staff bellach yn cael eu cadw ar gyfer pob cyflogai. | | |
| Tudalen 13 | Rhaid i staff gael archwiliadau cyn-cyflogi perthnasol cyn dechrau gweithio.<br><br>[Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 13.2; CDC 6.1.6] | Gwneir cais am eirdaon priodol cyn dechrau gweithio a chedwir cofnodion. | Rheolwr y practis | Ar unwaith |
| Tudalen 13 | Rhaid cynnal arfarniadau ar gyfer y staff er mwyn sicrhau bod eu hanghenion hyfforddiant yn cael eu bodloni.<br><br>[Safonau Iechyd a Gofal 7.1; CDC 6.1.6] | Bydd cyfarfodydd staff misol yn cael eu trefnu er mwyn rhoi sylw i unrhyw anghenion hyfforddiant mae'r staff yn credu bod angen arnynt. Mae trefniadau ar gyfer cynnal arfarniadau unigol yn cael eu gwneud. | Rheolwr y practis ac uwch-nyrs | Ar unwaith |
| Tudalen 13 | Mae angen i'r practis fod yn sicr bod y staff a gyflogir wedi'u cofrestru gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar hyn o bryd, a bod ganddynt yswiriant indemniad priodol.<br><br>[Safonau Iechyd a Gofal 7.1; CDC 1.8, 6.6.2] | Mae gan bob aelod o'r staff ffolder a chopïau o dystysgrifau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, manylion yswiriant indemniad, a thystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. | Rheolwr y practis | Ar unwaith |
| Tudalen 14 | Mae angen i'r practis fod yn sicr bod gan yr holl staff perthnasol ffeiliau datblygiad proffesiynol parhaus cyfredol. | Hysbyswyd pob aelod o'r staff i ddod â chopïau o dystysgrifau datblygiad proffesiynol parhaus y cyrsiau maent wedi'u dilyn. I'w hychwanegu at y | Rheolwr y practis ac uwch-nyrs | Ar unwaith |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | [Safonau Iechyd a Gofal 7.1; Cyngor Deintyddol Cyffredinol 6.1.6, 6.6.5] | ffolderi ac i'w cadw yn y practis. | | |
| Tudalen 14 | Mae angen i'r practis sicrhau bod gan bob deintydd dystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (o fewn y tair blynedd diwethaf).<br><br>[Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008] | Wedi gwneud cais am ffurflenni'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. | Rheolwr y practis a chlinigwyr | Ar unwaith |
| Tudalen 14 | Rhaid i bob aelod o staff dderbyn hyfforddiant mewn amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed.<br><br>Rhaid i'r practis gael polisïau a gweithdrefnau ar waith er mwyn ymdrin ag achosion diogelu a nodwyd.<br><br>[Safonau Iechyd a Gofal 2.7; CDC 4.3.3, 8.5] | Mae cwrs wedi'i drefnu ar gyfer 18 Mawrth 2016.<br><br>Polisïau a gweithdrefnau wedi'u sefydlu ar gyfer pe byddai angen i'r staff wneud atgyfeiriadau. Manylion cyswllt a chyfeiriadau lleol wedi'u cael. | Uwch-nyrs | Ar unwaith |
| Tudalen 15 | Mae'n rhaid i'r practis gofnodi pryderon ffurfiol, pryderon llafar, a phryderon anffurfiol.<br><br>[Canllawiau 'Gweithio i Wella' y GIG 2011; | Cedwir cofnodion yn y dderbynfa yn unol â 'Gweithio i Wella'. | Rheolwr y practis | Ar unwaith |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | *Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008]* ]. | | | |
| | **Ansawdd yr Amgylchedd** | | | |
| Tudalen 16 | Rhaid i'r practis sicrhau bod cyflwr yr adeilad yn gyffredinol yn foddhaol.<br><br>[Rheoliadau Gweithleoedd (Iechyd, Diogelwch a Lles) 1992] | Mae'r practis yn cael ei beintio y tu fewn a'r tu allan ar hyn o bryd. Mae capiau wedi'u gosod ar y peipiau yn y ddeintyddfa. | Clinigwyr a rheolwr y practis | Ar unwaith |
| Tudalen 16 | Rhaid darparu cyfleusterau gwaredu glanweithiol yn nhoiledau'r merched.<br><br>[Safonau Iechyd a Gofal 2.1; Rheoliadau Gweithleoedd (Iechyd, Diogelwch a Lles) 1992] | Mae contract gyda PHS eisoes ar waith. | Rheolwr y practis | Ar unwaith |
| Tudalen 17 | Rhaid i'r practis arddangos rhestr o'r holl staff clinigol/deintyddol, eu henwau, eu swyddogaethau, a'u rhifau Cyngor Deintyddol Cyffredinol.<br><br>[CDC 6.6.10] | Rhestr yn cael ei harddangos yn y dderbynfa. | Rheolwr y practis | Ar unwaith |

**Cynrychiolydd y Practis:**

| | |
|---|---|
| **Enw (llythrennau bras):** | **Patricia James** |
| **Teitl:** | **Rheolwr y Practis** |
| **Dyddiad:** | **18/09/2015** |